# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (224)

**Dyddiad: Dydd Mercher, 4 Hydref 2006**

**Gellir gweld canlyniadau'r pleidleisiau yma**

## 2.00pm
## Eitem 1: Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf ac eithrio cwestiwn 1 a dynnwyd yn ?Cafodd cwestiynau 5 a 10 eu grwpio.

........................................

## 2.33pm
## Eitem 2: Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 6 a 10 eu grwpio.

........................................

## 3.25pm
## Eitem 3: Cwestiynau i'r Trefnydd am ei Chyfrifoldebau heblaw Busnes y Cynulliad

Gofynnwyd yr 13 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 2, 4 a 7; 5 a 12; ac 8 ac 13 eu grwpio.

........................................

## 3.57pm
## Eitem 4: Cynnig i gymeradwyo Dyfarniad Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Categor? o Waith ac Uchafsymiau Grant) (Rhif 3) (Cymru) 2006 o dan Reol

# Sefydlog 29

**NDM3225 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol ?heol Sefydlog 29.3 (iii):

Yn ystyried egwyddor Dyfarniad Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Categor? o Waith ac Uchafsymiau Grant) (Rhif 3) (Cymru) 2006 y gosodwyd drafft ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn mynnu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi ymchwil i achosion marwolaethau ychwanegol dros y gaeaf yng Nghymru fel bo'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref yn cael ei ddatblygu ymhellach i roi sylw i'r rhain."*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 0 | 0 | 47 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**NDM3225 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol ?heol Sefydlog 29.3 (iii):

1. Yn ystyried egwyddor Dyfarniad Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Categor? o Waith ac Uchafsymiau Grant) (Rhif 3) (Cymru) 2006 y gosodwyd drafft ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006.

2. Yn mynnu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi ymchwil i achosion marwolaethau ychwanegol dros y gaeaf yng Nghymru fel bo'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref yn cael ei ddatblygu ymhellach i roi sylw i'r rhain.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y cynnig wedi’i ddiwygio:

| **O blaid** | **Ymatal** | **Yn erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 46 | 0 | 0 | 46 |

**Cymeradwywyd egwyddor y cynnig wedi’i ddiwygio.**

**NDM3226 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ynghylch Dyfarniad Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Categor? o Waith ac Uchafsymiau Grant) (Rhif 3) (Cymru) 2006 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006;

Gan weithredu’n unol ?heol Sefydlog 29.3 (iii) yn cymeradwyo bod Dyfarniad Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Categor? o Waith ac Uchafsymiau Grant) (Rhif 3) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ?146;r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig i gymeradwyo’r Dyfarniad :

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 0 | 0 | 47 |

**Cymeradwywyd y cynnig.**

**.......................................**

## 4.14pm
## Eitem 5: Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Cymdogaethau Gl?a'r Amgylchedd 2005 i Brif Weinidog Cymru

**NDM3227 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Gan weithredu dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i’r Prif Weinidog swyddogaethau’r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn neu o dan Ddeddf Cymdogaethau Gl?a’r Amgylchedd 2005 ("Deddf 2005"), ac eithrio’r swyddogaethau hynny a gynhwysir yn neu o dan adran 104 o Ddeddf 2005 (a ddirprwywyd i’r Prif Weinidog ar 15 Mawrth 2006 gan NDM 2920) a'r swyddogaethau hynny dan Ddeddf 2005 na ellir, yn ? gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau r? wyllgorau’r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan wybod y c? eu dirprwyo ymhellach, fel y bo’n briodol, i Weinidogion portffolio ac i staff.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig :

| **O blaid** | **Ymatal** | **Yn erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 0 | 48 |

**Cymeradwywyd y cynnig.**

......................................

## 4.27pm
## Eitem 6: Dadl am gynnig Lisa Francis o dan Reol Sefydlog 31

**NDM3186 Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 31.2, yn cefnogi, mewn egwyddor, ddeddfwriaeth i:

Diwygio Erthygl 10(2) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995 i:

(a) estyn y diffiniad o ‘Playing Field’ i gynnwys unrhyw dir yn yr awyr agored a ddefnyddir at ddibenion addysg gorfforol neu hamdden; a

(b) diwygio’r diffiniad o ‘Playing Pitch’ i ddileu’r gofyniad o ran maint ardal y gellir ei dynodi’n faes chwarae.

Isod ceir datganiad o’r pwerau cyfreithiol a fyddai’n caniat?i’r ddeddfwriaeth arfaethedig gael ei gwneud, ynghyd ag amlinelliad o’r goblygiadau o ran adnoddau a deunyddiau eraill, a hynny er

mwyn helaethu ar y cynnig:

**Datganiad o bwerau cyfreithiol:**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ?heol Sefydlog 31.2:

Yn datblygu is-ddeddfwriaeth ddrafft a gaiff ei gwneud dan adrannau 59, 61(1), a 333(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i ddiwygio erthygl 10 (2) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995.

I gyflawni’r amcanion a amlinellir yn y cynnig, byddai modd diwygio Erthyglau 10(2)(l)(i) a 10(2)(l)(ii) o’r Gorchymyn hwnnw sy’n ymwneud ?146;r diffiniadau o ‘Playing Field’ a ‘Playing Pitch’.

**Goblygiadau o ran adnoddau:**

Gan mai dim ond m?newid gweinyddol a wneir gyda’r diwygiadau hyn, ni ragwelir y bydd llawer o oblygiadau o ran adnoddau. Bydd unrhyw wariant a ddaw yn eu sgil yn fach iawn.

Bydd gofyn i awdurdodau lleol wneud rhywfaint o waith gweinyddol ychwanegol o ran coladu a phrosesu’r ddarpariaeth hon ond ni fydd angen cynyddu taliadau a bydd y dyletswyddau hyn yn cael eu harfer dan y trefniadau cyllidebol cyfredol.

## 5.00pm
## Cynnig trefniadol – Yn unol ?heol Sefydlog 6.21, rhoddodd y Trefnydd gynnig trefniadol ger bron i estyn y cyfarfod am 30 munud:

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig trefniadol:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 5 | 43 |

**Cymeradwywyd y cynnig trefniadol.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 26 | 53 |

**Cymeradwywyd y cynnig.**

.......................................

# 5.20pm
# Eitem 7: Y ddadl fer

**NDM3224 Christine Chapman (Cwm Cynon):**

Salwch meddwl: Rhoi Terfyn ar Stigma?

.......................................

# Daeth y cyfarfod i ben am 5.46pm.

.......................................

# Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 10 Hydref 2006

**E P Silk**
**Clerc y Cynulliad**